

CA2 Cymraeg – Creu llythyr – Iaith llythyr personol

Gweithgaredd 1

Atebion

Mae geiriau anffurfiol/tafodieithiol mewn print trwm.

Tŷ Twt,
14, Ger y Nant,
Abermawr
Nos Sadwrn, 8fed Chwefror

Haia Beds,

Sdim lot o amser 'da fi i **sgwennu** hwn achos dw i ar y ffordd allan i fynd i'r **practis** pêl-droed. Dw i **jest moyn** holi - fyddet ti **ffansi** dod **lan** i aros gyda fi rhywbryd dros y **gwylie**? **Ma'** Mam yn dweud galli di ddod 'ma unrhyw bryd **ti moyn** a bydde hi'n **grêt** dy weld di.

Gallen ni fynd am **wac lan** y mynydd tu ôl i'r tŷ, chware pêl-droed yn yr ardd neu fynd **mas** i bysgota ar y môr gyda Dad. Neu **jest 'chillio'** adre fan hyn, wrth gwrs. **Hei**, wyt ti'n **ffan** o **ffilmie** Star Wars? Dw i'n **dwlu** arnyn nhw! Ma'r 'box set' gyda fi fan hyn felly gallen ni **wotsho** rheiny trwy'r dydd!

Ta beth, rho **wbod be'** ti'n feddwl. **Cym on, dere** i aros! Dw i wir ddim **moyn** treulio'r holl **wylie** gyda **jest** Catrin fy **chwâr** fach i. **Bydde** hynny'n **ofnadw** o ddiflas!

Reit, bant â fi. Wela' i di cyn bo hir, gobeithio. **Plîs, plîs, plîs!**

Hwyl am nawr '**te**,

Rhys

Activity 1

Answers

The informal/dialectal words are in bold print.

Tŷ Twt,
14, Ger y Nant,
Abermawr
Nos Sadwrn, 8fed Chwefror

Haia Beds,

Sdim lot o amser 'da fi i **sgwennu** hwn achos dw i ar y ffordd allan i fynd i'r **practis** pêl-droed. Dw i **jest moyn** holi - fyddet ti **ffansi** dod **lan** i aros gyda fi rhywbryd dros y **gwylie**? **Ma'** Mam yn dweud galli di ddod 'ma unrhyw bryd **ti moyn** a bydde hi'n **grêt** dy weld di.

Gallen ni fynd am **wac lan** y mynydd tu ôl i'r tŷ, chware pêl-droed yn yr ardd neu fynd **mas** i bysgota ar y môr gyda Dad. Neu **jest 'chillio'** adre fan hyn, wrth gwrs. **Hei**, wyt ti'n **ffan** o **ffilmie** Star Wars? Dw i'n **dwlu** arnyn nhw! Ma'r 'box set' gyda fi fan hyn felly gallen ni **wotsho** rheiny trwy'r dydd!

Ta beth, rho **wbod be'** ti'n feddwl. **Cym on, dere** i aros! Dw i wir ddim **moyn** treulio'r holl **wylie** gyda **jest** Catrin fy **chwâr** fach i. **Bydde** hynny'n **ofnadw** o ddiflas!

Reit, bant â fi. Wela' i di cyn bo hir, gobeithio. **Plîs, plîs, plîs!**

Hwyl am nawr '**te**,

Rhys

Below is a translation of the letter.

Tŷ Twt,
14, Ger y Nant,
Abermawr
Saturday night, 8 February

Hiya Beds,

I haven't got a lot of time to write this, 'cause I'm on my way out to go to football practice. I just wanna ask – d'you fancy coming up to stay with me sometime over the hols? Mam says you can come here any time you want, and it'd be fab to see you.

We can go for a walk up the mountain behind the house, play footy in the garden or go sea fishing with Dad. Or just 'chill' here at home, of course. Hey, are you a fan of the Star Wars films? I absolutely love em! I've got the 'box set' here so we can watch them all day!

Anyway, lemme know what you think. C'mon, come and stay! I really don't wanna spend the whole hols with just my little sis Catrin. That'd be so boring!

Right then, I'm off. See ya soon, I hope. Please, please please!

Bye for now,

Rhys